

# Y Senedd a Chyfiawnder Gweinyddol (Rhan 2)

## Gwaith Etholaethol, Cynllunio Dulliau Unioni Cam a Goruchwylio

Briff Ymchwil

Corffennaf 2020



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:  
**[www.senedd.cymru/ymchwil](http://www.senedd.cymru/ymchwil)**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**  
**Tŷ Hywel**  
**Bae Caerdydd**  
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6313**  
E-bost: **[Nia.Moss@Senedd.Cymru](mailto:Nia.Moss@Senedd.Cymru)**  
Twitter: **[@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)**  
Blog: **[SeneddYmchwil.blog](http://SeneddYmchwil.blog)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2020**

Ceir atgynhychu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhychu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Y Senedd a Chyfiawnder Gweinyddol (Rhan 2)

## Gwaith Etholaethol, Cynllunio Dulliau Unioni Cam a Goruchwylio

Briff Ymchwil

Gorffennaf 2020

---

**Awdur:**

Dr Sarah Nason



## Cynnwys

<b>1. Cyflwyniad</b> .....	<b>1</b>
<b>2. Swyddogion Etholedig, Gwaith Etholaethol a Hanfodion Cyfiawnder Gweinyddol</b> .....	<b>2</b>
<b>3. Cyngor, Gwybodaeth a Chymorth</b> .....	<b>4</b>
<b>4. Cyfiawnder Gweinyddol: Unioni Cam a Chynllunio a Goruchwyllo'r Drefn</b> .....	<b>5</b>
4.1. Cynllunio Dulliau Unioni Cam .....	6
4.2. Goruchwyllo .....	11

## 1. Cyflwyniad

Yr Adroddiad hwn yw'r ail o ddau adroddiad yn deillio o Gymrodoriaeth Ymchwil Academaidd y Senedd 2019/20 sy'n canolbwyntio ar rôl y Senedd mewn cyfiawnder gweinyddol. Yn yr Adroddiad cyntaf eglurais y cysyniad o gyfiawnder gweinyddol, ac edrychais ar y dulliau o ymdrin â chyfiawnder gweinyddol a ddefnyddir yng Nghymru, a'u cymharu â dulliau eraill a ddefnyddir yn y DU. Canolbwyntiais ar rôl ddeddfu'r Senedd, gan gynnwys yr egwyddorion sy'n sail i gyfraith gweinyddiaeth gyhoeddus Cymru, a'r posibilrwydd y gellid gwneud rhagor o waith i egluro a chydgrynhoi cyfraith weinyddol o'r fath. Edrychais hefyd ar le cyfiawnder gweinyddol ochr yn ochr â chysyniadau gwleidyddol allweddol yng Nghymru, gan gynnwys hawliau dynol, cydraddoldeb a chynaliadwyedd. Yn yr Adroddiad hwn (Rhan 2) rwy'n egluro sut y mae gwaith etholaethol Aelodau o'r Senedd hefyd yn ffactor pwysig mewn cyfiawnder gweinyddol ynghyd â ffynonellau eraill sy'n darparu cyngor, gwybodaeth a chymorth i bobl sy'n anfonlon â phenderfyniadau corff cyhoeddus penodol neu sy'n bryderus ynglŷn â'r modd y darperir gwasanaethau lleol. Yna rwy'n ystyried sut y gall y Senedd graffu ar y gwaith o gynllunio mecanweithiau unioni cam yn system cyfiawnder gweinyddol Cymru, a hefyd sut y gall y Senedd graffu a goruchwyllo'r gwaith o ddatblygu'r system honno yn ei chyfanrwydd.

## 2. Swyddogion Etholedig, Gwaith Etholaethol a Hanfodion Cyfiawnder Gweinyddol

Mae Aelodau o'r Senedd ar reng flaen cyfiawnder gweinyddol. Yn aml iawn, dyma'r lle cyntaf y bydd pobl yn mynd i gael gwybodaeth, cyngor a chymorth (neu'r dewis olaf pan fydd pob opsiwn arall wedi methu). Awgryma gwaith ymchwil y gall Aelodau o'r Senedd fod yn effeithiol iawn wrth godi ymwybyddiaeth o bryderon unigolion a chymunedau ynglŷn â chyrff gweinyddiaeth gyhoeddus.<sup>1</sup> Mae Aelodau o'r Senedd mewn sefyllfa unigryw i dystio i'r problemau a achosir gan gymhlethdodau yn y system cyfiawnder gweinyddol, ac i weithredu er mewn newid y gyfraith a diwygio a gwella'r system honno. Fodd bynnag, nid yw Aelodau o'r Senedd yn cael hyfforddiant penodol ar y cysyniad o 'gyfiawnder gweinyddol', na mecanweithiau unioni cam, a gall cyngor a chymorth ynglŷn â sut i gyfeirio pobl at fecanweithiau, cyngor a chymorth priodol amrywio. Mae ymchwilwyr wedi nodi bod cynllunio dulliau unioni cam yn weithgaredd ar wahân ac arbenigol sy'n elwa o ddealltwriaeth drylwyr o safbwyntiau darpar ddefnyddwyr ynglŷn â'r mecanweithiau hynny. Mae Aelodau o'r Senedd mewn sefyllfa dda i fwydo'r safbwyntiau 'defnyddwyr' hynny i mewn i'r broses o graffu ar gynigion ar gyfer cynllunio dulliau unioni cam, ond er mwyn gwneud hynny'n effeithiol mae angen dealltwriaeth a gwerthfawrogiad cyffredinol o gyfiawnder gweinyddol a'r egwyddorion y gellir eu hyrwyddo drwy'r cysyniad a'r system.

Yn ogystal ag Aelodau o'r Senedd, mae'r tua 1,250 o gynghorwyr lleol yng Nghymru yn chwarae rhan hanfodol. Maent yn gwneud hyn drwy gynghori a chynorthwyo pobl sy'n ymwneud â phrosesau gwneud penderfyniadau awdurdodau lleol mewn cysylltiad â materion megis addysg, iechyd, tai a gwasanaethau a materion lleol eraill. Fel yn achos Aelodau o'r Senedd, nid yw'r cyngor a'r cymorth yn cael ei reoleiddio ac nid oes hyfforddiant penodol ar gyfiawnder gweinyddol.

---

**1 S Nason, A Sherlock, H Pritchard a H Taylor, *Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Chymru Gyfiawn (Pri fysgol Bangor University/Sefydliad Nuffield 2020)*.**

Mae gwaith ymchwil sy'n mynd rhagddo yn cefnogi'r argymhellion yn ymwneud â chodi ymwybyddiaeth a hyfforddiant ym maes cyfiawnder gweinyddol a wnaethpwyd yn Adroddiad Etifeddiaeth Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thriwlynlysoedd Cymru (CAJTW).<sup>2</sup> Er enghraifft, yn ei Adroddiad i Weinidogion Cymru mae CAJTW yn gwahodd Gweinidogion Cymru i gyfathrebu argymhellion amrywiol i'r Senedd gan gynnwys Argymhelliad 32:

Rydym yn gwahodd Gweinidogion Cymru i gyfathrebu'r argymhellion a ganlyn i'r Senedd Genedlaethol ac i Gomisiwn y Senedd: Dylai datblygiad proffesiynol mewn materion cyfiawnder gweinyddol fod ar gael i gadeiryddion Pwyllgorau a staff ategol y comisiwn. Dylid cynnig grwpiau ffocws trawsbleidiol i ACau (parthed cysylltiadau rhwng gwaith etholaethol a gweithredu'r system cyfiawnder gweinyddol yng Nghymru).

Mae gwaith ymchwil hefyd yn cefnogi ymestyn hyfforddiant perthnasol i gynghorwyr lleol.<sup>3</sup>

Gellid darparu hyfforddiant i gynghorwyr drwy *Academi Wales*, mewn cysylltiad ag academyddion/arbenigwyr eraill. Gellid darparu hyfforddiant i Aelodau o'r Senedd mewn cysylltiad ag aelodau o Banel Academaidd Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol y DU, Public Law Wales ac academyddion ac arbenigwyr eraill.

---

**2** **Committee on Administrative Justice and Tribunals Wales**, *Administrative Justice: A Corner stone of Social Justice in Wales; Reform priorities for the Fifth Assembly (2016) ['Legacy Report']* <<https://gov.wales/docs/cabinetstatements/2016/160729cornerstoneofsocialjustice.pdf>>.

**3** **Nason, Sherlock, Pritchard a Taylor (n 1).**

### 3. Cyngor, Gwybodaeth a Chymorth

Roedd Adroddiad Etifeddiaeth CAJTW yn 2016 yn pwysleisio bod 'cyfraith dda a chraffu effeithiol' yn elfennau pwysig o gyfiawnder gweinyddol, ond bod gwasanaethau cyngor yn hollbwysig er mwyn galluogi pobl i ddod o hyd i systemau unioni cam a deall eu hawliau a'u hawliadau.<sup>4</sup>

Canfu'r Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru [y Comisiwn Cyfiawnder] fod Llywodraeth Cymru wedi chwarae rhan arwyddocaol drwy hwyluso mynediad at gyfiawnder a lleddfu rhai o effeithiau gwaethaf toriadau cymorth cyfreithiol.<sup>5</sup> Daeth y Comisiwn Cyfiawnder i'r casgliad hefyd y byddai penderfynu ynglŷn â pholisi cymorth cyfreithiol yng Nghymru a'i weithredu yn hwyluso cydlynad cyffredinol y gwaith o ddarparu cymorth cyfreithiol a gwasanaethau cyngor i ddiwallu anghenion pobl. Mae'n argymhell y 'dylai'r cyllid ar gyfer cymorth cyfreithiol a'r trydydd sector sy'n rhoi cyngor a chynhorthwy gael ei ddwyn ynghyd yng Nghymru i ffurfio un gronfa o dan gyfeiriad strategol corff annibynnol'.<sup>6</sup>

Er fy mod yn cytuno â barn y Comisiwn Cyfiawnder y dylid cydlynu cyllid ar gyfer gwasanaethau cyngor yn well yng Nghymru, bydd angen rhagor o waith manwl i ddatblygu agweddau ymarferol ar strwythuro a goruchwyllo'r gronfa. Er enghraifft, mae'r sector cyngor yn ymateb i amrywiaeth o broffiliau angen, ac yn fy marn i byddai'n rhaid dyrannu, gweinyddu a goruchwyllo'r gronfa mewn modd hyblyg. Dylai'r cyfeiriad strategol fod yn annibynnol ar y trydydd sector i raddau. Bydd cyfansoddiad ac arbenigedd y corff cyfarwyddo yn hollbwysig, ynghyd â'i ddyletswyddau adrodd i'r Llywodraeth ac i'r Senedd. Ni ddylid caniatáu i wasanaeth 'dwy haen' ddatblygu lle byddai rhai pobl yn derbyn cyllid 'dull cymorth cyfreithiol' llawn, ac eraill yn derbyn llai o gymorth drwy gyrff trydydd sector er gwaethaf eu hanghenion. Dylai'r gronfa gael 'ei harwain gan yr unigolyn' lle bynnag y bo modd, ar sail anghenion penodol unigolion (a'r 'clystyrau' o broblemau a allai fod ganddynt) yn hytrach nag ar lefel ddiffiniedig o wasanaeth (boed yn wybodaeth yn unig, cymorth neu gynrychiolaeth gyfreithiol llawn) yn ymwneud â meysydd pwnc arbennig (megis tai, dyledion ac yn y blaen).

---

4 CAJTW (n 2).

5 Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, *Cyfiawnder yng Nghymru dros Bobl Cymru (Hydref 2019) Pennod 3.*

6 Comisiwn Cyfiawnder, *Argymhelliad 1.*



Mae gwaith ymchwil a wnaethpwyd yn ddiweddar gan fy nghydweithwyr a minnau i gyfraith tai ac addysg a datrys anghydfodau yng Nghymru<sup>7</sup> yn datgelu bod gan rai pobl sy'n defnyddio gwasanaethau cyngor, a rhai sefydliadau cynrychioladol proffesiynol yn y sector, bryderon ynglŷn ag annibyniaeth ganfyddedig a didueddrwydd trefniadau a wneir gan gyrff cyhoeddus ar gyfer darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth (fel sy'n cael ei annog weithiau, ac sy'n ofynnol dro arall, dan y gyfraith yng Nghymru). Codwyd amheuaeth o bryd i'w gilydd hefyd ynglŷn ag ansawdd a chywirdeb rhywfaint o'r cyngor hwn. Fodd bynnag, mae'r anawsterau mwyaf cyffredin wedi bod yn ymwneud ag adnabod y gyfraith gywir i'w chymhwysio yng Nghymru (â llawer yn dibynnu'n rheolaidd o hyd ar gyfraith Lloegr, er nad yw hynny'n briodol).<sup>8</sup> Dylai cynnydd â'r gwaith o gydgrynhoi, codeiddio a chodi ymwybyddiaeth o gyfraith Cymru fod o gymorth yma, ond mae'r rhain yn faterion y mae'n rhaid i'r Senedd fod yn ymwybodol ohonynt.

## 4. Cyfiawnder Gweinyddol: Unioni Cam a Chynllunio a Goruchwylio'r Drefn

Yn ei Adroddiad i Lywodraeth Cymru yn 2016 datblygodd CAJTW set o *Egwyddorion Cyfiawnder Gweinyddol i Gymru* (i'w weld fel atodiad i'r Adroddiad hwn) ac argymhellodd y dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori rhagor ynglŷn â'r rhain gyda'r bwriad o'u mabwysiadu'n ffurfiol. Daeth CAJTW i'r casgliad hwn: 'Credwn fod yn rhaid i ddull Cymreig [o ymdrin â chyfiawnder gweinyddol] sy'n seiliedig ar gred mewn cyfiawnder cymdeithasol fod yn seiliedig ar egwyddorion clir. Cynigiwn y canlynol fel templed ar gyfer llunio egwyddorion i alluogi Llywodraeth Cymru i ystyried, cynnig ei chynigion ei hun ar gyfer ymgynghoriad, ac yn ystod 2017, rhoi cyhoeddusrwydd i fersiwn terfynol'.<sup>9</sup>

Ymatebodd Llywodraeth Cymru drwy ddweud bod yr egwyddorion a gynigir yn adlewyrchu'r gwerthoedd presennol a darpariaethau deddfwriaethol sy'n sail i arferion gweithio.<sup>10</sup> Yn wir, datblygwyd yr Egwyddorion ar y sail honno, ac er

---

**7** S Nason a H Taylor, 'Social Housing and Justice in Wales', A Sherlock ac S Nason, 'Education and Justice in Wales' (Prifysgol Bangor/Sefydliad Nuffield 2020): <http://adminjustice.bangor.ac.uk/research-report.php.en>

**8** Gweler enghreifftiau yn Grŵp Ymchwil Cyfraith Cymru Ysgol y Gyfraith Bangor, *Response to Welsh Government Consultation on the Future of Welsh Law*.

**9** CAJTW (n 2).

**10** Llywodraeth Cymru, 'Ymateb i CAJTW': <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-11/welsh-government-response-to-cajtw-report.pdf>

mwyn ystyried yr arferion gorau yn rhyngwladol. Bwriadwyd iddynt ddarparu rhestr wirio i addysgu a darparu offer i'r rhai sydd mewn swyddi arweinyddiaeth er mwyn hybu cysondeb, gan gynnwys wrth wneud Asesiadau o'r Effaith ar Gyfiawnder. Byddai'r egwyddorion hefyd yn helpu gan eu bod yn darparu sail ar gyfer monitro a goruchwyllo sefydliadau cyfiawnder gweinyddol (ac maent wedi cael eu defnyddio i'r perwyl hwnnw mewn awdurdodaethau cyfreithiol eraill ac yn nhermau'r arferion gorau rhanbarthol a rhyngwladol). Mae ysgolheictod cyfraith weinyddol cymharol yn awgrymu bod egwyddorion cyffredinol sydd eisoes yn cael eu derbyn yn eang (fel y mae Llywodraeth Cymru'n diffinio Egwyddorion CAJTW) yn fwy priodol i'w mabwysiadu'n ffurfiol, a hyd yn oed ar gyfer codeiddio deddfwriaethol, na normau sy'n cael eu datblygu.<sup>11</sup> Trafodir hyn ymhellach yn ymateb Grŵp Ymchwil Cyfraith Cymru Ysgol y Gyfraith Bangor i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Ddyfodol Cyfraith Cymru.

Argymhellodd CAJTW hefyd y dylai cyngor Comisiwn y Senedd i'r Aelodau gefnogi dull cydlynol sy'n seiliedig ar egwyddorion o fonitro'r mecanweithiau presennol ar gyfer unioni cam ac apelio, a chynllunio rhai newydd, ac y dylai'r Senedd ystyried enwebu Pwyllgor i graffu ar weithrediad tribiwnlysoedd datganoledig Cymru a chynlluniau apelio *ad hoc* Cymru.

### 4.1. Cynllunio Dulliau Unioni Cam

Mae cyfiawnder gweinyddol yn wleidyddol yn ei hanfod, ac mae hyn yn arbennig o wir yng nghyswllt cynllunio dulliau unioni cam. Mae'r Athro Andrew le Sueur wedi dadlau bod 'cynllunio dulliau unioni cam yn weithgaredd cyfansoddiadol arwyddocaol', gan fod mecanweithiau unioni cam yn effeithio ar gydberthnasoedd rhwng unigolion a'r wladwriaeth.<sup>12</sup> Er hyn, mae'n dod i'r casgliad nad yw cynllunio dulliau unioni cam wedi cael digon o sylw yn y DU, ac nad yw wedi cael ei gydnabod fel gweithgaredd ar wahân. Mae ymchwil, tystiolaeth a gyflwynwyd i'r Comisiwn Cyfiawnder, a chasgliadau ac argymhellion y Comisiwn yn dangos mai ychydig o sylw sydd wedi'i roi i gynllunio dulliau unioni cam mewn rhai agweddau ar gyfraith, polisi ac ymarfer gweinyddol Cymru.<sup>13</sup>

---

11 **Gweithdy 'Codification of Administrative Law', Universität Zürich, 23 a 24 Ionawr 2020 (heb ei gyhoeddi eto).**

12 **A le Sueur, 'Designing Redress; Who Does it, How and Why?' (2012) 20(1) *Asia Pacific Law Review* 17.**

13 **Gweler er enghraifft, Comisiwn Cyfiawnder, Tystiolaeth a gyflwynwyd gan Grŵp Ymchwil Cyfraith Gyhoeddus Ysgol y Gyfraith Bangor: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-06/Submission-from-bangor-law-school-public-law-research-group.pdf>**

Ar lefel y DU, bu pryder ynglŷn â dulliau cynllunio, gweithrediad a chyfranogiad (fel diffynnydd) y Llywodraeth ganolog mewn prosesau unioni craidd ym maes cyfiawnder gweinyddol.<sup>14</sup> Mae pryder hefyd ynglŷn ag ymdrechion yn y gorffennol, ac yn y dyfodol o bosibl, i gyfyngu ar fynediad at adolygiad barnwrol.<sup>15</sup>

Mae'r dull gweithredu yng Nghymru'n wahanol, ac yn fwy seiliedig ar hawliau, ond ni allwn fod yn sicr y bydd y sefyllfa hon yn parhau. Dylid cynnwys mesurau diogelu (yn enwedig yng nghyswllt yr egwyddor gyfansoddiadol) yn y broses o gynllunio dulliau unioni cam a goruchwyllo. Ni all Llywodraeth Cymru osgoi'r feirniadaeth bosibl bod deddfu ar gyfer dyletswyddau hyrwyddol, ac nid ar gyfer hawliau y gellir eu gorfodi, yn caniatáu iddi ynysu ei hun rhag heriau unigol costus (er enghraifft drwy adolygiad barnwrol a hawliau Llys Gweinyddol eraill).

Mae opsiynau amrywiol ar gyfer unioni cam y gall Llywodraeth Cymru a'r Senedd eu hystyried yng nghyswllt penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan gyrff cyhoeddus. Mae llawer o'r opsiynau hyn wedi cael eu hystyried (a'u mabwysiadu) mewn deddfwriaeth, rheoliadau a chanllawiau amrywiol, ond yn fy marn i gellid gwneud archwiliad mwy penodol, yn seiliedig ar dystiolaeth, o ystod o ddulliau amgen yn y broses ddeddfwriaethol. Er gwybodaeth, mae'r opsiynau amrywiol yn cynnwys y canlynol (ymhlith eraill):

- Cynllun newydd yn cael ei drefnu drwy gontract allanol,
- Cynllun newydd yn cael ei weinyddu gan Lywodraeth Cymru neu lywodraeth leol,
- Rhoi pwerau newydd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (neu greu Ombwdsmon newydd),
- Creu Comisiynydd newydd neu roi pwerau newydd i Gomisiynydd sy'n bodoli'n barod,
- Pwerau newydd i Archwilydd Cyffredinol Cymru neu gorff rheoleiddio arall,
- Ychwanegu'r awdurdodaeth i dribiwnlys Cymreig sydd wedi'i ddatganoli'n barod,

---

**14** R Thomas a J Tomlinson, 'A Different Tale of Judicial Power: Administrative Review as a Problematic Response to the Judicialisation of Tribunals' [2019] *Public Law*.

**15** Gweler er enghraifft, V. Bondy ac M. Sunkin, 'How Many JRs are too many? An evidence based response to 'Judicial Review: Proposals for Further Reform'' UK Const. L. Blog (26 Hydref 2013) (ar gael yn <http://ukconstitutionallaw.org>); T. Hickman, 'Public Law's Disgrace', U.K. Const. L. Blog (9 Chwefror 2017) (ar gael yn <https://ukconstitutionallaw.org/>); a T. Hickman, 'Public Law's Disgrace: Part 2', U.K. Const. L. Blog (26 Hydref 2017) (ar gael yn <https://ukconstitutionallaw.org/>)).

---

- Creu tribiwnlys datganoledig Cymreig newydd,
- Ychwanegu awdurdodaeth newydd i lys neu dribiwnlys yn system Cymru a Lloegr,
- Adolygiad gweinyddol/ailstyriaeth,
- Cyfryngu neu ddulliau datrys anghydfod amgen eraill,
- Datrys anghydfod yn ddigidol/ar-lein,
- Creu corff newydd dim ond er mwyn 'hybu' prosesau gwneud penderfyniadau da,
- Cyfuniad o ddau neu fwy o'r uchod,
- Gwneud dim.

Mae gwaith ymchwil amrywiol yn darparu rhagor o fanylion ynglŷn â sut y mae rhai o'r llwybrau hyn wedi cael eu mabwysiadu a'u datblygu yng Nghymru hyd yn hyn.<sup>16</sup>

Mae'r Comisiwn Cyfiawnder yn dod i'r casgliad bod 'tuedd yn y deddfwriaeth a basiwyd gan y Senedd iddi nodi y dylid mynd ati i ddatrys anghydfodau yn y Llys Sirol neu yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd nad ydynt wedi'u datganoli'.<sup>17</sup> Canfu'r Comisiwn Cyfiawnder fod y defnydd bach iawn o dribiwnlysoedd datganoledig Cymru yn afreolaidd o ystyried eu cymhwysedd a'u capasiti arbenigol. Mae'n argymhell y 'dylid defnyddio tribiwnlysoedd Cymru i ddatrys anghydfodau ynglŷn â deddfwriaeth Gymreig yn y dyfodol'.<sup>18</sup> Bydd gweithredu'r argymhelliad hwn yn effeithio ar fecanweithiau datrys anghydfod mewn deddfwriaeth sy'n mynd drwy'r Cynulliad ar hyn o bryd, yn ogystal â llawer o deddfwriaethau'r dyfodol.

---

**16** S Nason, *Understanding Administrative Justice in Wales (Prifysgol Bangor 2015)*. S Nason, A Sherlock, H Pritchard a H Taylor (n 1).

**17** Comisiwn Cyfiawnder, para 6.59.2.

**18** Comisiwn Cyfiawnder, Argymhelliad 27.

Roedd CAJTW yn canolbwyntio ar greu mecanweithiau unioni cam *'ad hoc'*. Roedd yn cynnwys yn y categori hwn y prosesau gwneud penderfyniadau a datrys anghydfodau dan Gronfa Cymorth Dewisol Cymru; proses Adolygu Gofal Parhaus y GIG; a phaneli apêl derbyn a gwahardd disgyblion o'r ysgol sy'n cael eu galw gan awdurdodau lleol. Daeth y Comisiwn Cyfiawnder i'r casgliad bod yr olaf o'r rhain yn gweithredu heb unrhyw graffu barnwrol ac y dylent gael eu hadolygu gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru.<sup>19</sup>

Awgrymir yn rheolaidd bod troi at adolygiad barnwrol yn y Llys Gweinyddol yng Nghymru yn ddigonol er mwyn darparu ffordd i bobl amddiffyn eu hawliau a gorfodi dyletswyddau cyrff cyhoeddus lle nad oes mecanwaith unioni cam penodol. Fodd bynnag, mae gwaith ymchwil yn dangos nad yw adolygiad barnwrol yn dderbyniol fel ffordd o unioni cam i'r rhan fwyaf o bobl gyffredin, a bod y cyfraddau hawliadau y pen gan bobl yng Nghymru wedi bod yn is at ei gilydd na'r cyfartaledd ar gyfer Llys Gweinyddol Cymru a Lloegr.<sup>20</sup>

Nid yw adolygiad barnwrol yn hygyrch at ei gilydd fel dull unigol o unioni cam yng Nghymru,<sup>21</sup> ac mae ymglyfreitha budd y cyhoedd hefyd yn gyfyngedig. Er hyn, gwelwyd ymdrechion amlwg yn ddiweddar gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, a grwpiau o gyfreithwyr cyhoeddus ac academyddion cyfreithiol yng Nghymru sy'n gweithio gyda'i gilydd, i ddatblygu cynigion ar gyfer yr hyn a elwir yn 'ymglyfreitha strategol'.

Mae'r Llys Gweinyddol yng Nghymru wedi bod yn llwyddiant o ran symbolaeth gyfansoddiadol, ac yn rhannol lwyddiannus o safbwynt awdurdodaeth, ond mae nifer yr hawliadau a wnaethpwyd gan ymglyfreithwyr â chyfeiriadau yng Nghymru, a chan gyfreithwyr sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, wedi gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf (yn unol â thoriadau i gymorth cyfreithiol a diwygiadau adolygiadau barnwrol).<sup>22</sup> Mae llai o hawliadau (o ran nifer ac fel cyfran o holl

**19 Comisiwn Cyfiawnder, para 6.47: 'Mae'n bryder gennym nad yw paneli apeliadau derbyn i ysgolion a gwahardd o ysgolion yn gweithredu heb unrhyw fath o graffu barnwrol ...Credwn fod angen arfarniad trwyadl o'r ffordd y gweithredir paneli apeliadau awdurdodau lleol, a goruchwyliaeth gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru o'u prosesau gwneud penderfyniadau'.**

**20 Gweler cyfeiriadau yn (n 15) ac S Nason a D Gardner, 'Ten Years of the Administrative Court in Wales: Success or Failure?' UK Administrative Justice Institute Blog (19 Hydref 2019): <https://ukaji.org/2019/10/15/ten-years-of-the-administrative-court-in-wales-success-or-failure/>**

**21 PLP ac S Nason, Tystiolaeth i'r Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-11/submission-to-the-justice-commission-from-public-law-project-sarah-nason.pdf>**

**22 PLP a Nason (n 21) a Nason a Gardner (n 20).**

adolygiadau barnwrol y Llys Gweinyddol) gan hawl wyr o Gymru nawr nag a oedd ddwy flynedd cyn i Lys Caerdydd ddechrau gweithredu. Yn gyffredinol, mae cyfran yr adolygiadau barnwrol 'rhanbarthol' fel y'u gelwir ledled Cymru a Lloegr yn is nag yr oedd pan sefydlwyd Llysoedd Gweinyddol rhanbarthol (Caerdydd, Birmingham, Leeds a Manceinion) am y tro cyntaf yn 2009. Rwy'n dadlau na ellir dibynnu ar adolygiad barnwrol fel llwybr canolog ar gyfer cyfiawnder gweinyddol.

Os hynny, cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru a'r Senedd yw ystyried a ddylid creu llwybrau mwy penodol ar gyfer unioni cam (er enghraifft, drwy dribiwnlysoedd datganoledig Cymru). Mae Le Sueur yn nodi rhai ffactorau o blaid ac yn erbyn creu proses benodol (a allai fod yn apêl, adolygiad neu gŵyn):<sup>23</sup>

**Ffactorau o blaid mecanwaith penodol** yw: darparu proses a allai alluogi dulliau cymesur o ddatrys anghydfodau (yn enwedig os yw person sydd wedi'i dramgwyddo yn cael ei lywio oddi wrth adolygiad barnwrol); mae'n bwysig bod anghydfodau'n cael eu trin gan bobl sydd ag arbenigedd priodol yn y pwnc; mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn nodi bod angen proses gwyno benodol; a gellid gwella hyder y cyhoedd yn y cynllun gweinyddol drwy ddarpariaeth benodol.

**Ffactorau yn erbyn creu proses benodol** yw: byddai'n gostus i'w sefydlu a'i rhedeg; gallai achosi perygl o oedi wrth weithredu cynllun gweinyddol; mae darparu cyfleoedd i bartïon a chanddynt fuddiant wneud sylwadau cyn i benderfyniad gael ei wneud yn opsiwn digonol yn lle hawl i herio'r penderfyniad ar ôl iddo gael ei wneud; nid yw'r camau gan gorff cyhoeddus a allai gael eu herio yn benderfyniad nac yn ddyfarniad ynddynt eu hunain; dylid caniatáu i'r corff cyhoeddus arloesi (efallai y gallai hyn gynnwys arloesi drwy ddatblygu ei fecanweithiau cwynion mewnol ei hun hefyd).

Mae academyddion megis Le Sueur, ac elusennau sy'n hybu mynediad at gyfiawnder a rheolaeth y gyfraith (y Prosiect Cyfraith Gyhoeddus yn fwyaf arbennig), yn argymhell 'rhagdybiaeth y dylai pob cynllun gwneud penderfyniadau gweinyddol wneud darpariaeth benodol mewn deddfwriaeth ar gyfer llwybr ac atebion effeithiol i fynd i'r afael ag anghydfodau a chwynion'.<sup>24</sup>

**Ym maes ymchwil cyfiawnder gweinyddol ehangach mae fy nghydweithwyr a minnau'n argymhell y dylai'r Senedd ddefnyddio'r rhestr wirio isod wrth graffu ar fecanweithiau unioni cam:**

---

23 Le Sueur, 'Designing Redress' (n 12).

24 Le Sueur, 'Designing Redress' (n 12) a gweler V Bondy a A Le Sueur, *Designing redress: A study about grievances against public bodies* (Public Law Project 2012).

1. Dylid sefydlu rhagdybiaeth bod pob cynllun gwneud penderfyniadau gweinyddol yn gwneud darpariaeth benodol mewn deddfwriaeth ar gyfer llwybr effeithiol ac atebion er mwyn datrys anghydfodau a chwynion.
2. Dylai cynllunio sefydliadol barchu egwyddorion cyfansoddiadol.
3. Dylid cael atebolrwydd cyhoeddus dros weithredu'r modd yr ymdrinnir â chwynion.
4. Dylai tystiolaeth ac ymchwil fod yn sail i greu mecanweithiau unioni cam newydd a diwygio'r rhai presennol.
5. Dylid cael cyfleoedd ar gyfer datblygiadau arloesol sylfaenol.
6. Dylai mecanweithiau sicrhau gwerth am arian a chymesuredd.
7. Dylai'r mecanwaith unioni cam fod yn addas i'r math o gŵyn.
8. Dylid defnyddio meini prawf a phrosesau teg a rhesymegol i 'hidlo' cwynion amhriodol.
9. Yn ogystal ag ymdrin â chwynion unigol, dylai mecanweithiau unioni cam gyfrannu tuag at welliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus.
10. Pa bryd bynnag y bydd materion newydd yn codi y mae angen i'r system unioni cam weinyddol ymdrin â hwy, dylid ystyried i ddechrau a ddylid eu dyrannu i sefydliad unioni cam sy'n bodoli'n barod dan weithdrefn sy'n bodoli'n barod.
11. Dylid cynllunio mecanweithiau unioni cam yn bennaf o safbwynt y defnyddiwr.

## 4.2. Goruchwyllo

O ran system cyfiawnder gweinyddol ehangach, daeth y Comisiwn Cyfiawnder i'r casgliad hwn:

Nid yw prosesau'r system llysoedd a thriwlysoedd yn hawdd i'w deall heb gyngor. Mae llawer o lysoedd a thriwlysoedd wedi dod i fodolaeth yn rhannol fel mater o hanes ac yn rhannol o ganlyniad i awydd i ddarparu ffordd symlach a rhatach o ddatrys anghydfodau...Nid yw'r system erioed wedi cael ei rhesymoli, mae'n rhy gymhleth a dylai gael ei chysoni'n well â chymorth cyfreithiol...Ein dadansoddiad ni yw bod y strwythur presennol ar gyfer datrys anghydfodau'n dangos bod angen uno llysoedd a thriwlysoedd, ar gyfer cyfiawnder sifil ac ar gyfer cyfiawnder gweinyddol.<sup>25</sup>

Mae argymhellion y Comisiwn ar gyfer goruchwyliaeth farnwrol o'r system gyfiawnder (gan gynnwys cyfiawnder gweinyddol) yng Nghymru yn cynnwys goruchwyliaeth gan gorff newydd a fydd yn cael ei gadeirio gan uwch farnwr

a goruchwylloeth gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Mae ymchwil yn darparu archwiliad manylach o heriau a chyfleoedd gweithredu'r argymhellion hyn.<sup>26</sup>

Mae'r Comisiwn Cyfiawnder hefyd yn argymhell: 'Dylai fod gan Uned Tribiwnlysoedd Cymru annibyniaeth strwythurol, nad oes ganddi ar hyn o bryd, a bod yn destun rheolaeth farnwrol'.<sup>27</sup> Mewn ymchwil i weinyddiaeth gyhoeddus a Chymru gyfiawn (a ariannwyd gan Sefydliad Nuffield) argymhellodd fy nghydweithwyr a minnau fel a ganlyn:

Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn ystyried datblygu Uned Tribiwnlysoedd Cymru fel corff statudol annibynnol anweinidogol, gyda Bwrdd, Cadeirydd y Bwrdd a Phrif Weithredwr. Argymhellwn fod y corff hwn yn cael ei sefydlu ar sail egwyddorion sy'n cydnabod cymeriad neilltuol cyfiawnder gweinyddol ac y dylai gael ei graffu gan y Cynulliad.<sup>28</sup>

Mae gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru rwymedigaeth statudol i gyfleu barn aelodau o Dribiwnlysoedd Cymru i Weinidogion Cymru ac i Aelodau eraill o'r Senedd. Mewn cyfarfod rhwng Prif Weinidog Cymru, y Cwnsler Cyffredinol a Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru ym mis Chwefror 2018 cytunwyd y byddai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn cyflawni'r rhwymedigaeth hon drwy gyflwyno Adroddiad Blynyddol i'r Prif Weinidog ac i Lywydd y Senedd. Cafodd Adroddiad Blynyddol Cyntaf Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru,<sup>29</sup> ei roi gerbron y cynulliad ym mis Mawrth 2019. Nid yw'n ymddangos, yn dilyn hyn, bod yr Adroddiad wedi cael ei drafod yn y Senedd, yn y Cyfarfod Llawn nac mewn unrhyw Bwyllgor, ac ni chyfeirir ato yn y cofnod o drafodion y Senedd. Mae rhai o Lywyddion tribiwnlysoedd datganoledig unigol yng Nghymru wedi nodi yn anecdotiaidd wrth ymchwilyr cyfiawnder gweinyddol na ofynnwyd iddynt drafod eu Hadroddiadau Blynyddol ag unrhyw Bwyllgor perthnasol o'r Senedd, er y byddent wedi disgwyl hynny.

---

**26 Mae'r Comisiwn Cyfiawnder yn argymhell (yn para 5.55): 'Dylai prosesau datrys an ghydfodau gerbron llysoedd a thribiwnlysoedd, ffyrdd amgen o ddatrys an ghydfodau ac ombwdsmyrn, yn ogystal â datrys anghydfodau mewn perthynas â chyfraith weinyddol, gael eu hyrwyddo a'u cydgysylltu yng Nghymru drwy gorff a gadeirir gan uwch-farnwr'. Mae hefyd yn argymhell (yn para 6.50): 'Dylai pob corff cyhoeddus, ombwdsmon a thribiwnlys arall a sefydlwyd o dan gyfraith Cymru neu gan Lywodraeth Cymru sy'n gwneud penderfyniadau barnwrol neu led-farnwrol, ac nad yw'n cael ei oruchwyllo gan Lywydd tribiwnlysoedd Cymru ar hyn o bryd, gael ei ddwyn o dan oruchwylloeth y Llywydd'.**

**27 Comisiwn Cyfiawnder, para 6.59.1 ac Argymhelliad 27.**

**28 Nason, Sherlock, Pritchard a Taylor (n 1).**

**29 Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, Adroddiad Blynyddol Cyntaf (31 Mawrth 2019).**



Yn yr Adroddiad hwn rwyf wedi nodi agweddau amrywiol ar gyfiawnder gweinyddol a allai gael eu goruchwyllo gan Bwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad y Senedd, a hefyd gan y Senedd ehangach. Mae agweddau ar gyfiawnder gweinyddol yn ffitio ar draws cylch gorchwyl amryw o Bwyllgorau'r Senedd. Mae'n bosibl hefyd y gellid cynnal ambell ymchwiliad ar y cyd. Er enghraifft, gellid cynnal unrhyw ymchwiliad yn y dyfodol i gyfiawnder gweinyddol ym maes tai (unioni cam a'r posibilrwydd o dribiwnlys tai i Gymru) ar y cyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol.<sup>30</sup> Gallai unrhyw ymchwiliad i gyfiawnder gweinyddol yn ymwneud â derbyn a gwahardd o'r ysgol fod yn ymchwiliad ar y cyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Cwestiwn arall yw a all y Senedd ddarparu goruchwyliaeth ddigonol o gyfiawnder gweinyddol ar ei phen ei hun. Roedd gan Gyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd y DU (AJTC) (gan gynnwys ei Bwyllgor Cymreig) ddyletswydd statudol i adolygu ac adrodd ar gyfansoddiad a gweithrediad tribiwnlysoedd o fewn ei awdurdodaeth. Roedd hefyd yn gallu gwneud sylwadau ar ddeddfwriaeth a oedd yn effeithio ar dribiwnlysoedd, gan gynnwys rheolau gweithredu. Roedd gan aelodau hawl i fynychu ac arsylwi ar unrhyw achos tribiwnlys, hyd yn oed pan oedd yn cael ei gynnal yn breifat neu mewn fformat ar wahân i 'wrandawriad'. Roedd Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 yn nodi y gallai'r AJTC gael rhwng 10 a 15 o aelodau, ynghyd â'r Comisiynydd Gweinyddiaeth Seneddol (yr Ombwdsmon) fel aelod *ex officio*. Gallai'r Arglwydd Ganghellor, Gweinidogion Cymru a Gweinidogion yr Alban benodi dau neu dri aelod yr un. Cefnogid yr AJTC gan Ysgrifenyddiaeth yn cynnwys staff ar secondiad o'r Weinyddiaeth Amddiffyn a Llywodraeth yr Alban ac roedd ganddo gyllideb flynyddol yn 2010-11 o £826,146 ar gyfer gwaith cyffredinol AJTC, £128,092 ar gyfer Pwyllgor yr Alban, a £55,466 ar gyfer y Pwyllgor Cymreig. Roedd gan y Pwyllgor Cymreig ddyletswydd statudol i oruchwyllo cyfiawnder gweinyddol fel y mae'n gymwys i Gymru, yn ymestyn i dribiwnlysoedd a weinyddir gan Lywodraeth Cymru. Roedd cwmpas gweithredu'r AJTC yn ehangach na chyrrff yn goruchwyllo elfennau eraill o'r system gyfiawnder, megis y Cynghorau Cyfiawnder Sifil a Theuluol. Mae hyn oherwydd bod y cyrrff olaf dan arweiniad barnwrol; yn hytrach nag edrych o safbwynt defnyddwyr maent yn archwilio materion gweithredol.

Diddymwyd yr AJTC yn yr hyn a alwyd yn 'goelcerth cwangos', yn bennaf

---

**30 Mae'r Comisiwn Cyfiawnder yn nodi (yn para 5.35): 'Er bod cyfraith tai wedi'i datganoli'n llawn i Gymru, nid yw Llywodraeth Cymru na'r Senedd, hyd yn hyn, wedi ystyried ceisio cyfuno'r awdurdodaeth o ran anghydfodau'n ymwneud â thai mewn un llys neu dribiwnlys'.**

oherwydd bod Llywodraeth y DU yn credu nad yw manteision profedig goruchwyliaeth yn cyfiawnhau'r gost. Nid yw'n hawdd mesur y manteision; nid oedd asesiad y Weinyddiaeth Gyfiawnder o effaith diddymu, na'r AJTC ei hun, yn gallu amcangyfrif faint o gostau y gellid eu hosgoi drwy wella'r system cyfiawnder gweinyddol a thrwy hynny leihau'r angen am apeliadau a chwynion. Roedd ymchwiliad yn 2012 gan Bwyllgor Dethol Gweinyddiaeth Gyhoeddus Tŷ'r Cyffredin i *Oruchwyllo Cyfiawnder Gweinyddol yn y Dyfodol* yn seiliedig ar adroddiad gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn 2005, ac yn dod i'r casgliad a ganlyn: 'Byddai gwella cost y trefniadau unioni cam presennol cyn lleied â phump y cant yn arbed mwy na phum gwaith amcangyfrif mwyaf optimistaidd y Llywodraeth o'r cynilion a fyddai'n deillio o ddiddymu'r AJTC'.<sup>31</sup>

Mae anawsterau go iawn wrth geisio mesur gwelliannau i gyfiawnder gweinyddol. Er enghraifft, gallai llwyth achosion cynyddol ar gyfer cyrff unioni cam penodol fod yn dystiolaeth o berfformiad gwael mewn gweinyddiaeth gyhoeddus, ond gallai hefyd fod yn dystiolaeth o fwy o ymwybyddiaeth o lwybrau unioni cam a gwell mynediad at gyfiawnder. Gellid rhoi sylw i'r pryderon hyn mewn dwy ffordd. Y ffordd gyntaf yw bod y broses o ddigideiddio agweddau ar weinyddiaeth ac unioni cam yn gyfle i gasglu data am y system cyfiawnder gweinyddol. Gellid cyfuno hyn i ddarparu modelau mwy dibynadwy ac aml-ffactor i amcangyfrif llwyddiant meintiol ymyriadau goruchwyllo yn fwy cywir. Dull arall cysylltiedig yw mesur mwy crwn o lwyddiant. Argymhellwyd Gweithgor yn cael ei alw fel rhan o Adolygiad Llywodraeth Cymru o Gydraddoldeb Rhywiol hefyd fel model ehangach i fesur llwyddiant yng nghyswllt canlyniadau cydraddoldeb.<sup>32</sup>

Er fy mod yn credu bod angen i'r Senedd chwarae rhan fwy gweithredol yn y gwaith o graffu ar gyfiawnder gweinyddol, fy marn i o hyd yw y dylai goruchwyliaeth statudol annibynnol barhau. Gallai pwyllgor statudol annibynnol ddarparu swyddogaeth addysgol a gweledigaeth strategol ar draws y llywodraeth, gan hybu cydlyniant y system ac ystyried y gwerthoedd a'r egwyddorion sy'n sail iddi. Gallai corff o'r fath hefyd rwydweithio, cydgysylltu a chydweithredu â nifer o wahanol randdeiliaid, gan gynnwys ymarferwyr ac academyddion.

Mae cyrff goruchwyllo statudol blaenorol wedi'u sefydlu â rolau i fonitro

- 31** **Tŷ'r Cyffredin, Pwyllgor Dethol Gweinyddiaeth Gyhoeddus, yr unfed adroddiad ar hugain - Future oversight of administrative justice: the proposed abolition of the Administrative Justice and Tribunals Council (Chwefror 2012), para 52.**
- 32** **A Parken, The report of the Well-being and Equality Working Group: Improving Well-being and Equality Outcomes: Aligning processes, supporting implementation and creating new opportunities (Gorffennaf 2019) t.10: <https://chwaraeteg.com/wp-content/uploads/2019/09/Aligning-and-Improving-Outcomes-for-Well-being-and-Equality.pdf>**

gweithrediad diwygiadau eang i system cyfiawnder gweinyddol awdurdodaeth arbennig.<sup>33</sup> Mae'r cyrff wedi tueddu i gael eu diddymu wedyn pan fydd y broses ddiwygio bron â chael ei chwblhau. Ond mae hyn yn anystyriol o gofio bod natur cyfiawnder gweinyddol yn golygu y bydd angen i systemau a gweithdrefnau esblygu'n barhaus er mwyn cyflawni heriau newydd mewn bywyd cymdeithasol a gweinyddiaeth gyhoeddus.<sup>34</sup>

Er bod Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol ar gyfer y DU, nid oes ganddo ddigon o adnoddau i gynnal gweithgareddau monitro uniongyrchol a goruchwylio unrhyw rai o systemau cyfiawnder gweinyddol y DU. Mae'n rhoi sylw i faterion thematig pwysig lle mae rhywfaint o ysgogiad i ddatblygu polisi a/neu ddeddfwriaeth (ar gyfer Lloegr a'r DU yn bennaf) ac yn edrych ar faterion pwysig sy'n berthnasol i holl wledydd y DU (e.e., digideiddio).<sup>35</sup>

### **Mae fy ymchwil yn awgrymu y dylid creu corff goruchwylio statudol annibynnol ac y dylai fod â'r nodweddion a ganlyn:**

- Annibyniaeth a digon o awdurdod i herio gwleidyddion.
- Digon o adnoddau, yn ymestyn i bersonél ac arbenigedd, gan gynnwys yr adnoddau sydd eu hangen er mwyn cynnal ymweliadau goruchwylio tribiwnlysoedd.
- Ysgrifenyddiaeth ar wahân.
- Cyllideb ymchwil ar wahân a gwerthfawrogiad bod ymchwil yn elfen ganolog o'r broses o wneud penderfyniadau.

---

**33 Er enghraifft, AJTC y DU, a Chyngor Adolygiad Gweinyddol Awstralia a sefydlwyd yn dilyn diwygiadau mawr i gyfiawnder gweinyddol yn Awstralia. Rhaid cael ys gogiad gwleidyddol a pholisi ar gyfer newid, ac ar gyfer goruchwyliaeth f wyhirdymor. Er enghraifft, ym mhrofiad De Affrica, mae'r Athro Cora Hoexter yn awgrymu bod methiant i sefydlu corff goruchwylio ynghyd â chodeiddio cyfiawnder gweinyddol yn gyfle a gollwyd i'r graddau ei bod yn 'annhebygol y bydd gan y llywodraeth byth eto'r cymhelliant angenrheidiol i roi rhagor o... weithdrefnau gweinyddol iddo'i hun, na'r ewyllys gwleidyddol i wneud hynny', ac nad yw'n debygol iawn, heb hyrwyddwr cyfiawnder gweinyddol, y bydd y llywodraeth yn darparu cyllid ar gyfer diwygio a gweithredu cynigion. C Hoexter, 'The Future of Judicial Review in South African Administrative Law'. 1117 (2000) SALJ 499.**

**34 gweler er enghraifft, J Boughey a G Weeks, 'Comment from Australia: Australian Government Scraps Peak Administrative Law Advisory Body' U.K. Const. L. Blog ( 25 Mai 2015) (ar gael yn <http://ukconstitutionallaw.org>)).**

**35 Gweler AJC, *First Annual Report (2018/19)*: <https://ajc-justice.co.uk/wp-content/uploads/2019/11/AJC-Annual-report-.pdf>**

- Cael ei sefydlu drwy statud, gan gynnwys pwerau a dyletswyddau statudol, a'r berthynas statudol lle mae'n rhaid rhoi adroddiadau gerbron y senedd berthnasol ac mae'n rhaid ymateb iddynt.
- Y gallu i wneud argymhellion ar draws y sector cyfiawnder gweinyddol yn ei gyfanrwydd, a sicrhau nad ydynt wedi'u gwreiddio mewn 'seilos' neu ganghennau o'r system gyfiawnder.
- Y capasiti i weithredu fel corff gwarchod ac fel mentor, gan adolygu swyddogaethau ac effeithiolrwydd sefydliadau a gweithdrefnau, a gwneud cynigion er mwyn hwyluso prosesau gwneud penderfyniadau gwell, a darparu cymorth a hyfforddiant i weithwyr cyfiawnder gweinyddol proffesiynol (gan gynnwys aelodau tribiwnlysoedd ac eraill).
- Dod â llunwyr polisïau, ymarferwyr ac academyddion at ei gilydd.
- Y gallu i weithio'n hyblyg ac addasu i newidiadau yn natur gweinyddiaeth a heriau newydd (rhaid i'w swyddogaethau fod yn ymatebol yn ogystal â rhagweithiol).
- Gweithgareddau tryloyw.